Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Amy De Silva**

**Caernarfon**

Adroddi



ol heb ei

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

19/01/2022

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | **19 Ionawr 2017** |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy<br>Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Crynodeb

***Mae hwn yn arolygiad a gynhaliwyd yn ystod pandemig COVID-19, felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd llawn.***

Mae'r plant yn hapus; maent yn chwarae'n hyderus gyda'i gilydd ac yng nghwmni'r gwarchodwr plant. Maent yn mynegi eu hunain yn dda, yn unol â'u hoedrannau a'u camau datblygiad. Mae ystod dda, amrywiol o weithgareddau diddorol yn hyrwyddo chwilfrydedd naturiol y plant i ddysgu trwy chwarae. Mae'r gwarchodwr plant yn garedig ac yn ofalgar, yn adnabod y plant yn dda, ac yn ystyriol o'u hanghenion a'u hoffterau. Mae'r adeiladau yn lân, yn ddiogel ac yn cynnig cyfleusterau a lle i'r plant ddatblygu a dysgu. Mae'r gwarchodwr plant wedi ymateb i ganllawiau a gyhoeddwyd ynghylch pandemig COVID-19 ac wedi cymryd camau gweithredu i leihau'r risg posibl i'r plant. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth glir o'i rôl yn rheoli'r gwasanaeth. Mae hi'n gwneud newidiadau cadarnhaol i wella arferion ac mae ganddi bartneriaethau cryf ac effeithiol â'r rhieni.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Mae'r plant yn penderfynu ar yr hyn y maent am ei wneud, megis chwarae gyda'r teganau maent yn eu hoffi. Maent yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain; yn bwyta'r hyn y maent am ei gael ac yn rhoi gwybod i'r gwarchodwr plant pan fyddant wedi cael digon. Gwrandewir ar syniadau'r plant ac ymatebir i'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud yn gadarnhaol; er enghraifft, mae'r gwarchodwr plant yn darllen y straeon y mae'r plant yn gofyn amdanynt.

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn teimlo'n ddiogel. Maent yn gyfforddus yng nghwmni'r gwarchodwr plant ac yn eistedd ar ei phen-glin neu yn closio i gael cwtsh pan fyddant i gyd yn eistedd gyda'i gilydd. Mae'r plant yn gwenu wrth iddynt chware gyda'i gilydd ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi pan fydd y gwarchodwr plant yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau.

Mae'r plant yn dysgu sut i ryngweithio'n gadarnhaol; maent yn gwneud ffrindiau ac yn cyfarch y gwarchodwr plant yn barchus fel Anti Amy. Gydag ychydig o anogaeth, maent yn dangos cwrteisi gan ofyn i adael y bwrdd pan fyddant wedi gorffen bwyta. Mae'r plant yn gwrando ar gyfarwyddyd ac yn hapus i helpu i dacluso teganau pan ofynnir iddynt wneud hynny. Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu; maent yn dewis eu hoff deganau wrth iddynt gyrraedd o'r ysgol ac yn enwi'r deinosoriaid yn hyderus wrth iddynt chwarae. Roedd y plant yn edrych yn falch o'u hunain pan fyddant, trwy fod yn benderfynol, yn llwyddo i droi'r weindiwr ar yr hofrennydd i wneud iddo weithio. Maent yn rhoi gwên fawr pan fydd y gwarchodwr plant yn eu canmol am eu cyflawniadau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth; mae'r rhai sy'n gallu defnyddio'r toiled ar eu pen eu hunain yn gwneud hynny ac maent i gyd yn ymolchi eu dwylo cyn bwyta eu cinio. Mae'r plant yn defnyddio eu dychymyg yn dda. Er enghraifft, maent yn esgus bod cwpanau pentyrru yn ffonau ac maent yn gwneud eu gorau glas i ddefnyddio geiriau Cymraeg mewn sgwrs y maent yn ei chael gyda'r gwarchodwr plant. Mae'r plant yn gwneud paned o de (dychmygol) i'r gwarchodwr plant wrth chwarae yn y gornel gartref ac yn rhoi dol yn y bygi yn ofalus i gysgu. Mae sgiliau iaith y plant yn datblygu trwy'r sgyrsiau y maent yn eu cael gyda'r gwarchodwr plant a'i gilydd.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl o ran cadw'r plant yn ddiogel. Mae hi'n diwygio ei pholisi COVID-19 yn rheolaidd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae mynychu cyrsiau diogelu plant yn galluogi'r gwarchodwr plant i ddilyn arferion diogel pe bai bryder ganddi.  Mae ei thystysgrif cymorth cyntaf yn gyfredol, felly gallai roi cymorth cyntaf sylfaenol pe bai angen. Dim ond dau ddigwyddiad y bu angen iddi eu cofnodi a'i rhannu gyda'r rhieni. Ers ein hymweliad, mae cofrestri presenoldeb dyddiol bellach yn cael eu cwblhau. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn sicrhau bod gan y plant ddigon o gyfleoedd i dreulio amser yn yr awyr iach. Mae bwyta'n iach yn cael ei annog ac esboniodd y bwydydd y gwnaeth eu prynu a'u paratoi i'r plant sydd â gofynion deietegol penodol. Cynhelir ymarferion tân bob mis er mwyn i'r plant wybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r plant ac yn parchu'r hyn maent yn ei ddweud drwy'r amser yn ystod ein hymweliad. Mae hi'n egluro'r hyn a ddisgwylir o'r plant sy'n golygu eu bod yn rhyngweithio'n dda. Mae'r gwarchodwr plant yn arwain trwy esiampl ac nid yw byth yn colli cyfle i ddiolch i'r plant am fod yn garedig, rhannu neu ddangos cwrteisi. Mae pob rhyngweithiad â'r plant ar eu lefel nhw, gan ddefnyddio iaith y maent yn ei deall a thonau tyner a thawel. Mae hwn yn gweithio'n arbennig o dda, sy'n golygu eu bod yn rhyngweithio'n gadarnhaol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda ac yn parchu eu hoffterau. Er enghraifft, mae patrymau cwsg y plant yn cael eu dilyn a glynir at eu hoffterau bwyd. Mae hi'n cynllunio ar gyfer profiadau chwarae a dysgu'r plant, gan sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu hamrywio i gynnal diddordeb y plant. Mae lluniau manwl a lliwgar o'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau yn eu dangos, er enghraifft, yn ymweld â choetir a neidio o foncyff i foncyff, yn ymarfer eu sgiliau pedlo ar deganau i'w gyrru ac yn ymweld â llyfrgell. Yn ystod ein hymweliad, mae'r gwarchodwr plant yn canu rhigymau Cymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg yn ysbeidiol yn ystod amser chwarae, er mwyn i'r plant ddod yn gyfarwydd â'r iaith. Mae'r gwarchodwr plant yn ymatebol ac yn rhoi ei braich o'u cwmpas yn naturiol wrth iddi ddarllen stori. Mae hi'n ymgysylltu'n dda â'r plant drwy'r amser yn ystod ein hymweliad, gan siarad â nhw a sicrhau bod ganddynt yr hyn y mae ei angen arnynt a'u bod yn hapus.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle yn ddiogel ac yn lân. Er enghraifft, heblaw am ein harolygiad, ni chaniateir mynediad i'r rhieni nac ymwelwyr yn ystod oriau gwarchod y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n ddiwyd wrth ddefnyddio'r gadair uchel, gydag asesiadau risg manwl yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod y flwyddyn. Mae'r asesiad risg COVID-19 yn dangos sut mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ac yn cael gwared ar haint posib, lle y bo'n bosibl, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gofal i'r plant ar y llawr daear ac mae pob ardal a ddefnyddir yn olau ac yn lân. Mae ardal chwarae ddynodedig yn yr ystafell fyw sydd wedi'i threfnu'n dda gyda theganau ac adnoddau wedi'u lleoli o fewn cyrraedd y plant. Mae cynllun agored ar y llawr daear ac mae'n cynnig digon o le i'r plant symud o gwmpas a mwynhau eu profiadau chwarae. Mae'r ardd gefn gaeedig wedi'i chynllunio i wneud y mwyaf o'r lle sydd ar gael i annog y plant i ddysgu ac archwilio yn yr awyr iach. Mae'r amgylchedd yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant gyda'u lluniau a'u gwaith crefft yn cael eu harddangos.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd a'r adnoddau'n lân ac mewn cyflwr da. Mae'r teganau a'r offer o ansawdd da ac yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygu'r plant. Yn yr awyr agored, maent yn gallu chwarae yn y gegin fwd a dysgu sut i blannu a thyfu blodau a ffrwythau. Mae silff natur yn arddangos yr eitemau y mae'r plant wedi'u ffeindio neu eu casglu wrth fynd am dro, megis cerrig mân, cregyn a hen nyth adar heb ei ddefnyddio. Mae dewis eang o deganau pren yn dangos bod y gwarchodwr plant yn hyrwyddo defnydd deunyddiau cynaliadwy.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio gyda gofal a sylw dyladwy er mwyn diwallu'r safonau gofynnol a'r rheoliadau. Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys gwybodaeth sydd ei hangen ar rieni i benderfynu a yw'r gwasanaeth yn addas ar gyfer anghenion eu plentyn. Er bod y gwarchodwr plant wedi dysgu i siarad Cymraeg, nid yw'n darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ Llywodraeth Cymru yn llawn gan fod polisïau a gweithdrefnau ar gael yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd.

Cyflwynodd y gwarchodwr plant y dogfennau ar-lein AGC gofynnol yn 2021. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad ansawdd gofal sy'n nodi barn y plant a'u rhieni. Roedd yr holl adborth yn gadarnhaol, er enghraifft, ysgrifennodd y plant ‘*Dyma ti a fi Amy yn mynd am dro gyda'n gilydd. Mae enfys achos ein bod yn hapus'* a ‘*Diolch yn fawr am edrych ar fy ôl i eleni. Rwyt ti wastad wedi bod yn gwmni da iawn ac rwyt ti yno bob amser pan fydda i dy angen*’. Cadarnhaodd y rhieni eu bod 100% yn fodlon ar ei dibynadwyedd, ei hyblygrwydd, sut mae'n rhannu gwybodaeth, a'i hargaeledd. Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig i wneud newidiadau cadarnhaol er budd y plant. Mae gwelliannau ers ei harolygiad diwethaf yn cynnwys gosod gorchudd dros y maes chwarae yn yr awyr agored er mwyn i'r plant allu aros yn sych yn ystod tywydd gwlyb, offer newydd ar gyfer chwarae yn yr awyr agored a chyfleuster toiled ac ymolchi dwylo i lawr y grisiau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ganddi hi ac aelodau'r cartref dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Yn ystod y cyfyngiadau symud, gwnaeth y mwyaf o'r hyfforddiant ar-lein a gynigiwyd a chwblhaodd nifer o gyrsiau mewn perthynas â'r rôl gwarchod plant. Er mwyn datblygu ei gwybodaeth ymhellach, bydd y gwarchodwr plant yn dechrau cwrs gradd mewn seicoleg plant eleni. Mae hi'n parhau i sicrhau bod ei hyfforddiant gorfodol yn cael ei gadw’n gyfredol a dywedodd wrthym ei bod hi wrth ei bodd yn gofalu am blant.

Mae'r gwarchodwr plant wedi sefydlu partneriaethau cadarnhaol â’r rhieni. Mae hi'n ymgysylltu'n dda â nhw i ddarparu'r gofal sydd ei angen ar eu plant trwy gyfathrebu clir a gwybodus. Mae'r gwarchodwr plant yn cryfhau perthnasau trwy drefnu digwyddiadau llwyddiannus sy'n dod â'r plant a'u teuluoedd at ei gilydd. Er enghraifft, nododd y rhieni yn eu holiaduron i'r gwarchodwr plant ‘*Rwyt ti'n cynnig cymysgedd o weithgareddau dan do a*

*gweithgareddau awyr agored, ac mae fy xxx yn mwynhau'r holl ddigwyddiadau arbennig rwyt ti'n eu cynnal, megis diwrnod chwaraeon, gwyliau a phartïon*". Mae digwyddiadau o'r fath yn gwella dealltwriaeth y plant o fod yn rhan o'u cymuned a'r byd ehangach yn fawr iawn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Dim

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y gallwn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad cyhoeddi** 02/03/2022

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi